# Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

**Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yw prif sefydliad treftadaeth Cymru; mae'n datblygu ei chasgliadau, yn eu hastudio, yn gofalu amdanynt, ac yn hyrwyddo mynediad iddynt er budd cymdeithas a hyd byth.** Gyda mwy na 500 o staff ar saith safle ar draws Cymru, gofala AOCC am bron i 5 miliwn o wrthrychau ar ran y genedl. Dena ei harddangosfeydd parhaol a dros dro, digwyddiadau, a chasgliadau ymchwil 700,000 o ymwelwyr bob blwyddyn ar gyfartaledd, yn cynnwys 150,000 mewn grwpiau addysg. Cymer 100,000 pellach ran yn ei rhaglenni estyn, ac mae ei hystod eang o bartneriaethau yn cynnwys cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ac amgueddfeydd a phrifysgolion yng Nghymru a thramor. Ariennir ei gweithgareddau drwy gymhorthdal gan y Cynulliad Cenedlaethol (£14.7M yn 2001/2002) ac ychwanega at hyn drwy godi incwm ychwanegol o dros £1M y flwyddyn.

---

## 1. Hanes Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

- AOCC yw un o'r amgueddfeydd ac orielau Cenedlaethol ieuengaf yn y DU. Sefydlwyd hi yn y 1880au, pan oedd symudiad yng Nghymru tuag at sefydlu cyrff cenedlaethol, o ba un y tyfodd hefyd Brifysgol Cymru (1893) a'r Llyfrgell Genedlaethol (1907). Penderfynwyd ar leoliad yr amgueddfa a'r llyfrgell newydd gan bwyllgor o'r Cyfrin Gyngor, a ddewisodd Gaerdydd ar gyfer y gyntaf ac Aberystwyth ar gyfer yr ail. Gorchmynnodd hefyd gael Siarteri Brenhinol, gan adlewyrchu rhan flaenllaw y Senedd wrth sefydlu y ddau gorff.

- Dymunai sefydlwyr yr Amgueddfa greu corff a fyddai'n cynrychioli holl brif fuddiannau Cymru – yr addysgol, y diwydiannol a'r gwleidyddol, a sefydlwyd y cysyniad o Lys yn Siarter 1907 ar y patrwm a sefydlwyd ar gyfer Prifysgol Cymru. Cynhwysai y Llys yn wreiddiol holl Aelodau Seneddol Cymru a chynrychiolwyr o bob un o'r Cynghorau Sir a'r Bwrdeistrefi Sirol. Crëwyd 'datganiad cenhadaeth' yr Amgueddfa gan Arglwydd Pontypridd ym 1912 – *'i ddysgu y byd am Gymru a'r Cymry am eu mamwlad'*, a phwysleisiodd y mynegiad mwy ffurfiol sydd yn y Siarter fod yr Amgueddfa Genedlaethol yn cael ei sefydlu *er budd addysg y cyhoedd*, a olygai 'gynrychiolaeth lwyr' ar lawer agwedd ar fywyd, hanes, diwylliant a byd natur Cymru.

- Ym 1912 gosodwyd carreg sylfaen yr hyn a adweinir gennym yn awr fel yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol gan y Brenin Siôr V, ac yn yr un flwyddyn trosglwyddwyd yn ffurfiol gynnwys Amgueddfa Gymreig Hanes Natur, Celfyddydau a Hynafiaethau Caerdydd. Dilynwyd derbyn Tŷ Turner ym Mhenarth (1921) a'r hyn a elwir yn awr yn Amgueddfa'r Lleng Rufeinig Caerllion (1930) gan agoriad yr adain ddwyreiniol a Theatr Ddarlithio Reardon Smith ym 1932.

- Agorwyd Amgueddfa Werin Cymru ym 1948 yn Sain Ffagan.Yn y 1970au gwelwyd ychwanegu Amgueddfa Chwarelyddol Gogledd Cymru yn Llanberis sef  Amgueddfa Lechi Cymru (ALC) bellach, ac Oriel Graham Sutherland, Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru (ADGC), a'r Hen Gapel yng ngorllewin

Cymru. Hefyd agorodd rhan gyntaf Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru ym 1977 a chymrodd AOCC y cyfrifoldeb am gaer Rufeinig Segontiwm yng Nghaernarfon ym 1979.

- Ymhlith datblygiadau'r 1980au a'r 1990au yr oedd gwaith adeiladu ac ehangu sylweddol yng Nghaerllion, agor Oriel Eryri yn Llanberis (a werthwyd bellach), ac adeiladu Orielau'r Cwrt ym Mharc Cathays, a agorwyd ym 1993. Ymgymerwyd â gwaith sylweddol, a gafodd gymorth gan CDL, gan Amgueddfa Lechi Cymru ym 1998 a 1999.

- Ymhlith campau mwyaf sylweddol yr Amgueddfa ers ei sefydlu roedd creu ym 1948 Y Gwasanaeth Addysg i Ysgolion blaengar, y fenter fawr gyntaf o'i bath yn y DU. Mae AOCC yn awr yn ei gyllido o'i gymhorthdal cynnal ar ôl i'r Awdurdodau Addysg Lleol dynnu eu nawdd yn ôl yn y 1980au. Cynllun Amgueddfeydd Cysylltiedig AOCC, oedd yr un mor flaengar, oedd y model ar gyfer Cynghorau Amgueddfeydd Ardal y DU. Mabwysiadwyd rhai o ddyletswyddau AOCC yn y maes hwn gan Gyngor Amgueddfeydd Cymru (CAC).

## 2. Llywodraeth

- Mae AOCC yn gorff Siarter Frenhinol gyda statws elusennol, sy'n cael ei ariannu drwy gymhorthdal cynnal drwy'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yn atebol yn gyhoeddus drwy ei Chyngor a Llys y Llywodraethwyr. Noda'r Siarter amcanion a grymoedd yr Amgueddfa. Breiniwyd casgliadau AOCC, ar ran y genedl, yn yr Amgueddfa. Fel Ymddiriedolwyr AOCC, mae'r 15 aelod o'r Cyngor yn atebol i, ymhlith eraill, y Comisiynwyr Elusennau; mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb yn y diwedd dros reolaeth holl weithrediadau yr Amgueddfa.

- Mae'r Cyngor yn atebol i'r cyhoedd drwy Lys Llywodraethwyr AOCC, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Aelodau'r Llys sy'n penodi y Llywydd, yr Is-Lywydd a'r Trysorydd a phedwar o'u haelodau eu hunain i'r Cyngor. Mae'r Cynulliad hefyd yn penodi pedwar o bobl i'r Cyngor, ac mae'r pedwar lle sy'n weddill yn cael eu llanw gan benodiadau a wneir gan y Cyngor. Cyhoeddir cofnodion y Cyngor ar Wefan AOCC ac maent ar gael i'r cyhoedd yn Llyfrgelloedd Amgueddfa Werin Cymru ac Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd. Cyhoedda yr Amgueddfa gyfrifon sy'n cael eu harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac Adroddiad Blynyddol.

- Cynorthwyir y Cyngor yn ei waith gan ryw 60 aelod o amrywiol Bwyllgorau a Phanelau Ymgynghorol sy'n cynnig arbenigedd ar bob agwedd ar gasgliadau AOCC a'r gwaith addysgol, o'r meysydd proffesiynol ac o fyd busnes. Ni fydd unrhyw aelod o'r Cyngor na'i Bwyllgorau na'i Banelau Ymgynghorol yn derbyn tâl.

- Caiff AOCC ei noddi a'i chefnogi drwy gymhorthdal gan Y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Cyfarwyddwr AOCC yn atebol i'r Cynulliad ac fe'i dynodwyd yn "swyddog cyfrifo" gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ogystal â'i hatebolrwydd i'r Cyngor. Edrydd AOCC i Weinidog Diwylliant, Chwaraeon

a'r Iaith Gymraeg a'r pwyllgor o'r un enw drwy Adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg y Cynulliad. Mae'n cyflwyno Cynllun Corfforaethol tair-blynedd i'r Cynulliad sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn ac sy'n rhoi ystyriaeth i Gynllun Corfforaethol y Cynulliad ei hun, *Gwell Cymru* a dogfennau polisi eraill fel *Diwylliant Cytun* a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

3. **Rhai Uchafbwyntiau**

Dyma AOCC:

- Dyma'r grŵp o atyniadau diwylliannol/treftadaethol yr ymwelir fwyaf â hwy yng Nghymru, gan ddenu tua 700,000 ymweliad yn flynyddol. Mae AOCC yn cynnwys saith (a ddaw yn wyth yn fuan) amgueddfa ac oriel unigol yng ngogledd, gorllewin a de Cymru. Allan o rwydwaith y DU o 12 o amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol, AOCC yw'r unig un sy'n gweithredu cynifer â phump amgueddfa y tu allan i'r brifddinas neu ei hardaloedd cyfagos.

- Mae'n sefydliad o safon byd-eang gyda chasgliadau ag iddynt fri rhyngwladol, ac sy'n ymwneud ag agweddau pwysig ar y gwyddorau daear a gwyddor bywyd, y celfyddydau, archaeoleg a hanes Cymru. Disgrifir AOGC fel un o ddeg amgueddfa orau y DU gan *The Which? Guide to Tourist Attractions* (2000).

- Mae'n cael ei hadnabod ledled y byd fel canolfan rhagoriaeth ym maes ymchwil. Mae'n gwneud cyfraniad i agenda bio-amrywiaeth y byd, er enghraifft, sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol, gyda nawdd sylweddol gan DETR drwy Fenter Darwin (£160,000 ar gyfer 2000-2003), ac yn cyfrannu at addysgu gwledydd eraill i ddysgu am eu hanes naturiol eu hunain. Cyhoedda ei staff amlddisgyblaethol 100 o lyfrau ac erthyglau ar gyfartaledd bob blwyddyn.

- Dyma Oriel Genedlaethol Cymru ac fe'i cydnabyddir ar draws y byd am ei chasgliadau o gelfyddyd hanesyddol a chyfoes Cymru, sef rhyngddynt, dros 75% o'r casgliadau celfyddyd gain ac addurniadol. Mae hefyd yn gartref i gasgliadau ardderchog o gelfyddyd ryngwladol, sy'n cynnwys un o'r casgliadau pwysicaf o gelfyddyd Argraffiadol y tu allan i Ffrainc, diolch i gymunrodd y chwiorydd Davies. Dyma o bosib, y rhodd ddiwylliannol unigol fwyaf erioed a wnaed i bobl Cymru.

- Sefydlwyd Amgueddfa Werin Cymru, yr amgueddfa awyr-agored gyntaf yn y DU, a agorwyd yn Sain Ffagan ym 1948. O ran rhagoriaeth ei chasgliadau mae AWC yn arwain y maes, ar y blaen i ryw 10 o amgueddfeydd tebyg yn y DU sydd bellach mewn bodolaeth, a hi yw'r atyniad treftadaeth yr ymwelir fwyaf â hi yng Nghymru. Ynddi y cedwir yr archif lafar awdurdodol ar yr iaith Gymraeg a'i thafodieithoedd, caneuon gwerin a hanes Gwerin Cymru.

- Mae'n falch o'i chymeriad dwyieithog – mae'n unigryw ymhlith amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol y DU - gyda llawer o'i gwaith yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ei chyfraniad i ddiwylliant cyfoes yr

iaith Gymraeg, drwy gyhoeddiadau, a'i phresenoldeb mewn eisteddfodau er enghraifft yn un o bwys. Mae llawer o'i gwaith yn wreiddiol Gymraeg (yn hytrach na chael ei gyfieithu o'r Saesneg).

- Cynigia gyngor ffurfiol i ystod eang o gyrff fel CDL, Cronfa Genedlaethol y Casgliadau Celfyddyd (NACF), Swyddfeydd Trethi Cyfalaf, Pwyllgor Adolygu Allforio Gweithiau Celfyddyd, *Resource* a Chynhadledd Cyfarwyddwyr yr Amgueddfeydd Cenedlaethol. O fewn i Gymru mae staff uwch yn aelodau o Fwrdd Henebion Cymru, y Cyngor Adeiladau Hanesyddol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

- Gweithia mewn partneriaeth gydag amgueddfeydd ac orielau lleol, cyrff academaidd a chyrff sectorau cyhoeddus preifat yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae Atodiad 1 yn rhestru rhai o'r amgueddfeydd, prifysgolion a chyrff lle mae gweithwyr proffesiynol o bob cyfandir ar hyn o bryd yn cydweithio gyda AOCC.

- Cyfrannu tuag at adferiad cymdeithasol ac economaidd mewn ardaloedd o ddiweithdra uchel drwy'r diwydiant ymwelwyr, creu gwaith yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, a hyrwyddo delwedd gadarnhaol o Gymru fel cenedl ddiwylliedig a gwybodus a chefnogi'r Cynulliad Cenedlaethol i greu Cymru well.

4. **Dyletswyddau AOCC heddiw**

Diffiniodd *Resource* (olynydd y Comisiwn Amgueddfeydd ac Orielau) amgueddfeydd yn ddiweddar fel sefydliadau sy'n **'galluogi pobl i ymchwilio i gasgliadau er derbyn ysbrydoliaeth, dysg a mwynhad. Maent yn sefydliadau sy'n casglu, yn diogelu ac yn cynnig mynediad at arteffactau a sbesimenau y maent yn ymddiriedolwyr arnynt ar ran y gymdeithas'.**

Dyletswyddau AOCC yw casglu ac ymchwilio; diogelu y casgliadau; a darparu mynediad i'w chasgliadau a'i gwybodaeth.

- **Casglu ac ymchwilio**

AOCC yw'r gadwrfa genedlaethol dros ddeunydd tri-dimensiwn sy'n ymwneud â threftadaeth naturiol a diwylliant Cymru, ynghyd â deunydd rhyngwladol pwysig. Deil amgueddfeydd cenedlaethol fel AOCC ddeunydd ar ran pobloedd y byd yn ogystal ag ar gyfer budd a mwynhad mwy uniongyrchol ei chenedl ei hun. Wrth barhau i ddatblygu ein casgliadau byddwn yn gyson yn ailwerthuso eu perthnasedd a'u gwerth o ran ymchwil ac at ddibenion arddangos fel ei gilydd, yn awr ac yn y dyfodol, a byddwn yn neilltuo cyfran gynyddol o'r amser i ymchwilio, asesu a chasglu deunydd cyfoes; yn ddiweddar gwnaethom ddau benodiad newydd – ym maes curadaeth diwydiant cyfoes a chelfyddyd ddiweddar. Mae dewis wrth gasglu a chadw deunydd yn gynyddol bwysig; mae'n amhosibl i amgueddfa unigol i gadw rhyw gymaint o bob dim. Yn hyn cydweithiwn gyda'n chwaer amgueddfeydd ar draws y byd i sicrhau nad ydym yn dyblygu deunydd yn ddiangen a bod cydweithio yn y gwaith o lanw bylchau.

A ninnau'n sefydliad cymharol ieuanc, mae'n dyngedfennol inni barhau i gryfhau a datblygu'r casgliadau drwy gaffael enghreifftiau pwysig, ac mae hyn yn gofyn am ariannu parhaus ar gyfer pryniadau, gwaith maes a chloddio. Dyna pam y mae'r Cymhorthdal Prynu Sbesimenau mor bwysig.

Mae ymchwil i dasgiau amgueddfaol sylfaenol megis casglu deunydd, gofalu amdano a'i esbonio yn hanfodol. Weithiau bydd cynnyrch ymchwil amgueddfeydd yn cael eu collfarnu fel rhywbeth sydd ar gyfer ysgolheigion eraill yn unig. Fodd bynnag, bydd y deunydd yma hefyd yn cael ei gyfleu i'r cyhoedd mewn ffyrdd mwy derbyniol a phoblogaidd - drwy arddangosfeydd, arddangosiadau rhyngweithiol, cyflwyniadau clyweledol, tywyswyr a dehonglwyr, llawlyfrau, a'n blwyddlyfr 'Amgueddfa', darlithoedd cyhoeddus, sgyrsiau a darllediadau er enghraifft.Trwy ymchwil i ddeunydd gwreiddiol y bydd amgueddfeydd yn ein galluogi i ddysgu am darddiad ein byd er mwyn deall ein hamgylchfyd a'n hamrywiaeth diwylliannol yn well.

Mae ymchwil yn gynhaliaeth hollbwysig i gasgliadau a gwaith arddangos yr Amgueddfa ac mae'n sail i'n gweithgareddau mynediad eraill, yn gyhoeddiadau neu'n ddigwyddiadau. Un o brif ddiffinwyr Amgueddfa Genedlaethol yw ei bod yn defnyddio ei chasgliadau yn sail ar gyfer ymchwil ysgolheigaidd sy'n cyfrannu at gyfanswm gwybodaeth dyn. Yn ddiweddar ymgymerwyd ag adolygiad o rôl ymchwil gennym yn AOCC ac un canlyniad fu sefydlu Bwrdd Anghenion Ymchwil i annog diwylliant ymchwil gweithgar a sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau prin. Nid yw diwylliant ymchwil gweithgar yn dibynnu ar adnoddau ariannol yn unig, ond hefyd ar amser staff sydd o dan bwysau oherwydd yr angen i gyflawni nifer gynyddol o dasgiau. Mae angen i ni hefyd gwrdd â'r her o sicrhau bod ein darganfyddiadau ymchwil diweddar ar gael, yn hygyrch ac yn ddealladwy i'r gynulleidfa ehangaf.

- **Diogelu**

Mae siwardiaeth gyfrifol yn hanfodol bwysig i amgueddfeydd. Bydd gweithgareddau fel dogfennu, cadwraeth ac adfer yn gwella perthnasedd a hygyrchedd ein casgliadau. Dros y deng mlynedd diwethaf yr ydym wedi buddsoddi er mwyn gwella safon storio, dogfennu a chadwraeth. Gwnaed gwelliannau gan AOCC o ran **storio** ei chasgliadau. Heddiw gellir disgrifio 57% o'n stordai (o ran eu maint) fel rhai da neu dda iawn, o gymharu â 29% ym 1996. Un sylfaen gref yn y strategaeth hon oedd agor y Ganolfan Gasgliadau newydd yn Nantgarw, sydd yn gartref ar hyn o bryd i'n casgliadau diwydiannol a'r Ganolfan Adnodd Archifau. Sicrhaodd AOCC welliant o ran **dogfennu** ei chasgliadau. Ym 1990 sefydlwyd rhaglen ddogfennu. Erbyn hyn crëwyd dros 700,000 o gofnodion cyfrifiadurol (325,000 ers 1998) ar gyfer y casgliad o 4.7 miliwn o wrthrychau. Roedd ganddynt i gyd gofnodion da ar bapur, ond mae eu rhoi ar gyfrifiadur yn gwella atebolrwydd a hygyrchedd fel ei gilydd. Cafodd **cadwraeth** casgliadau AOCC ei wella drwy sefydlu rhaglen gadwraeth ym 1988; bellach mae 29 o gadwraethwyr yn gweithio yn ein prif feysydd casglu. I fod yn fwy negyddol, daliwn i frwydro i gynnal

adeiladwaith ein heiddo ac mae toeon sy'n gollwng yn parhau i fygwth y casgliadau.

Mae cadwraeth y casgliadau yn gofyn am y canlynol: buddsoddi parhaus i gwblhau dogfennu ein casgliadau hyd at lefel archwilio priodol, trosglwyddo y data i'r system gyfrifiadurol fel bod y wybodaeth yn rhwydd i'w chyrchu, ac yna wella curadaeth gyffredinol, ailbacio a chatalogio. Mae angen i ni gynnal ein menter gadwraethol a'r  ffactor a gâi y dylanwad mwyaf ar ran helaethaf ein deunydd fyddai helaethu ein Canolfan Gasgliadau yn Nantgarw. Yno câi rhan helaethaf ein casgliadau wrth gefn ac ymchwil, a gedwir ar hyn o bryd yn AOG ac AWC, eu diogelu a'u gwneud yn hygyrch i staff a defnyddwyr allanol. Byddai hyn, ynghyd â gwella rhai stordai lle y cedwir casgliadau a ddefnyddir yn ddyddiol ar y ddau brif safle, yn dylanwadu'n sylweddol er gwell ar ein tasg o ddiogelu casgliadau'r genedl. Gwelir manylion y dyhead hwn yn ein Cynllun Corfforaethol (sydd i'w weld ar y We ar www.aocc.ac.uk).

- **Mynediad**

Mae'r cynnydd o 8.5% yn niferoedd ymwelwyr AOCC hyd yma yn 2000/01, a bron i bob atyniad yng Nghymru yn brwydro i gynnal y niferoedd, yn arwydd o'r gwerth a  wêl y cyhoedd mewn mynediad i amgueddfeydd. Darperir tystiolaeth bellach o dwf poblogrwydd a hygyrchedd AOCC gan dwf y defnydd a wneir o'n gwefan. Ymwelwyd 231,000 o weithiau â'r dalennau yn y chwarter diwethaf.

Gall mynediad fod yn gorfforol neu yn ddeallusol. Ceisiodd AOCC wella mynediad corfforol drwy nifer o ddatblygiadau:

- Galluogodd yr Adeilad Canol gwerth £26 miliwn yn AOG i ni gael dengwaith y cynnydd yn y nifer o baentiadau olew a arddangosir yn AOG (o 50 i 500) a theirgwaith y cynnydd yn nifer yr eitemau celf addurniadol a arddangosir (o 1,000 i 3,000).
- Drwy ostwng nifer yr amgueddfeydd o unarddeg ym 1991 i saith erbyn 2000 mae AOCC wedi canolbwyntio ei hadnoddau ar lai o ganolfannau rhagoriaeth sydd â gwell gwasanaethau. Arweiniodd hyn at dwf cyson mewn ymwelwyr ar waethaf y gostyngiad yn nifer y safleoedd.
- Mae Oriel Celf yng Nghymru, a agorwyd ym 1998, yn dangos arddangosfeydd  thematig  o waith artistiaid Cymreig a'r rhai a gafodd eu dylanwadu gan Gymru, a hynny'n aml gyda chyhoeddiadau yn gefn iddynt (e.e.*Welsh Artists Talking)* a rhaglenni teledu ategol (e.e. *Painting the Dragon).*
- Agorodd Oriel ddyfeisgar ryngweithiol Glanely ym 1999. Yn hon gall y cyhoedd ddysgu drostynt eu hunain gyda gwrthrychau real, gwasanaeth sy'n unigryw i amgueddfeydd. Yn ei blwyddyn gyntaf croesawodd yr Oriel bron i 40,000 o ymwelwyr a fu'n cymryd rhan yn ei gweithgareddau.
- Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ym 1998 ar *Strategaeth Ddiwydiannol i Gymru*

dderbyniad da. Mae yn awr yn mynd rhagddi mewn pedwar cam ac mae'n gysylltiedig â phenodiad curadur diwydiant modern i gasglu yn y maes hwn, a oedd heb gynrychiolaeth yn y gorffennol.

- Gwaith ailddatblygu yn Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, a gwblhawyd ym 1999. Denodd y cynllun gymhorthdal gwerth £1.5m gan CDL ac mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu 66% o 28,268 (blwyddyn 95-96) i 46,964 (blwyddyn 99-00). Cyrhaeddodd ALC rownd derfynol Gwobr Atyniad Ymwelwyr y Flwyddyn Bwrdd Croeso Cymru yn 2000.
- Datblygu Pwll Mawr, Blaenafon i fod yn Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru fel rhan annatod o Safle Treftadaeth Byd Blaenafon. Cafodd y project hwn bron i £5.5m o gymorthdaliadau hyd yn hyn; bwriedir cwblhau'r gwaith yn 2002.
- Ailddatblygu Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru yn Sir Gaerfyrddin. Bydd y cynllun yn costio tua £1.6m; bwriedir cwblhau'r gwaith yma hefyd yn 2002.
- Y bartneriaeth arloesol gyda Dinas a Sir Abertawe i ddatblygu Amgueddfa Diwydiant a Môr Newydd i Gymru wrth graidd cyrchfan glandŵr newydd yn hen ardal dociau Abertawe. Cynllunir datblygiad gwerth £30m, i'w gwblhau yn 2004/5.

Blaenoriaeth bresennol AOCC yw gweithredu'r Strategaeth Ddiwydiannol, ond mae AOCC eisoes yn edrych i'r dyfodol. Bydd cynllun cyflawn yn cael ei baratoi eleni a fydd yn strwythuro ac yn trefnu datblygiad Nantgarw yn gyntaf ac, yn y tymor hwy, ddatblygiad AOG ac AWC- y ddau safle yng Nghaerdydd, sy'n denu 75% o ymwelwyr AOCC.

Mae cynlluniau datblygu i'n dwy brif amgueddfa yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

**Yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol:** ein blaenoriaeth yw gwella arddangosiad casgliadau helaeth AOCC yn y lleoliad hardd hwn yng nghanol y ddinas. Mae amgueddfeydd ac orielau a edmygir yn fyd-eang yn cyfoethogi apêl y brifddinas i ymwelwyr a mewnfuddsoddwyr fel ei gilydd. Mae gan AOG gasgliadau sy'n eithriadol o bwysig a phrydferth, ond mae rhai o'i harddangosiadau – yn enwedig ym maes archaeoleg a hanes natur – yn parhau i fethu â chyrraedd y safon a ddisgwylid gan amgueddfa genedlaethol fodern. Mae AOCC yn archwilio'r holl ddewisiadau lluosog sydd yn y pair ar hyn o bryd, o ran gwella arddangosiadau casgliadau gwyddonol yr amgueddfa a chasgliadau deunydd celf a diwylliannol yr Oriel Genedlaethol. Anelwn, y Gwanwyn hwn, at ddynodi'r opsiynau ymarferol, gan arwain at ymgynghoriad cyhoeddus ehangach yn 2001.

**Amgueddfa Werin Cymru:** yr ydym ar hyn o bryd yn ymchwilio i ffyrdd o wneud gwell defnydd ar y swyddfeydd a'r fynedfa sy'n dyddio o'r 1970au, er mwyn darparu cyfleusterau addysg a gwell mynediad i'r casgliadau, yn enwedig y casgliadau hanes llafar. Yr ydym hefyd yn ymchwilio i ffyrdd o gyflwyno Cymru i'r ymwelydd tro cyntaf yn ogystal â'r ymwelydd cyson mewn modd fydd yn darparu gwybodaeth ac yn dal y dychymyg.

Bydd yn rhaid i gyfleon masnachu a hwyluso defnydd corfforaethol fod yn rhan o unrhyw gynlluniau i'r dyfodol ym mhob un o'n hamgueddfeydd. Y

mae cyfyngiadau ar y ffyrdd y gallwn ni wneud hyn ond yn yr 21ain ganrif rhaid i amgueddfeydd fanteisio'n llwyrach ar y cyfleon i greu incwm, heb gyfaddawdu eu prif bwrpas o ddiogelu casgliadau a rhoi mynediad i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Bydd yn rhaid dod o hyd i gyllid i ariannu y datblygiadau hyn. Nid yw codi arian yng Nghymru yn hawdd. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein tîm codi arian bychan, ond bywiog, er mwyn elwa yn llawn ar eu gwaith yn y dyfodol.

Heddiw mae mynediad yn golygu tipyn mwy nag agor drysau amgueddfa a chaniatáu i ymwelwyr ddod i fewn i edmygu gwrthrychau mewn casys gwydr. Bydd pobl yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n bwysig fod amgueddfeydd yn parchu'r gwahaniaethau hyn, ac yn ymateb i'w gwahanol anghenion deallusol drwy ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau dehongli. Mae defnydd dyfeisgar o dechnoleg yn rhan o hyn, ond felly hefyd ymwneud rhwng pobl â'i gilydd. Deil amgueddfeydd yn lleoedd lle bydd pobl yn dysgu gan bobl,-gwasanaeth traddodiadol sydd serch hynny yn werthfawr ac yn un yr ydym yn awyddus i'w atgyfnerthu.

Ymrwymodd AOCC i **addysg.** Cyfeiriwyd eisoes at Wasanaeth Ysgolion yr Amgueddfa. Ym 1999 penderfynwyd cynnig mynediad am ddim i grwpiau ysgolion, er mwyn hyrwyddo amcanion cymdeithasol gynhwysol y Cynulliad. Mae sefydlu y Gyfadran Casgliadau ac Addysg yn pwysleisio rhyngberthynas y disgyblaethau hyn. Dros y pum mlynedd diwethaf mae nifer y staff sydd yn ymwneud yn uniongyrchol â hwyluso dysgu gydol-oes ar draws ein holl safleoedd wedi cynyddu o 500%, gyda phump o safleoedd AOCC yn awr yn cyflogi staff addysg penodedig. Maent yn cydweithio'n agos gyda staff y casgliadau, sydd, hwythau, yn gynyddol gysylltiedig â darparu addysg.

Gwedd bwysig ar fynediad, yn gorfforol ac yn ddeallusol, yw **estyn.** Mewn gwlad sy'n ddifreintiedig yn economaidd, ac sydd heb wasanaeth trafnidiaeth da, croesewir mynd â chasgliadau ac arbenigedd at y bobl. Ym 1999 ymgynghorodd AOCC yn eang ar yr angen i gael **gwasanaeth estyn modern i wasanaethu ysgolion a chymunedau** gyda gwasanaeth benthyg gwrthrych-seiliedig - ymgynghoriad a ddangosodd yn glir y galw sydd am ddarpariaeth o'r fath. O ganlyniad, yr ydym yn uwchraddio eitemau sydd ar gael yn adran y casgliad trafod ac yn cynhyrchu catalogau modern digidol a mynediad ar-lein i alluogi rhagor o bobl i fanteisio ar y gwasanaeth hwn.

Mae llawer o'n projectau estyn yn rhai sy'n seiliedig ar gymunedau; enghraifft gyfredol o hyn yw project hanes a chelfyddyd, sydd yn rhoi cyfle i ieuenctid difreintiedig yn y Barri, sy'n cyfrannu at arddangosfa gyfredol AOCC, *Pwy Ydym Ni? What Makes Wales?* Mae projectau felly yn defnyddio 'Project Cambrensis', cynllun fideogynadledda sy'n fodd i ysgolion a grwpiau cymunedol gysylltu â staff proffesiynol yr amgueddfa, a grwpiau eraill, i hyrwyddo ymhellach addysg gwrthrych-seiliedig. Mae'n un enghraifft o offer cyfathrebu technoleg-uwch sy'n helpu pobl i gydgysylltu. Yn ein Cynllun Corfforaethol gwelir ffyrdd eraill yr ydym yn gobeithio eu defnyddio i gryfhau effeithiolrwydd ein gwaith addysg ac estyn, sydd yn helaethu mynediad i ardaloedd yng Nghymru a ddifreiniwyd yn gymdeithasol.

**Ymchwil a Gofal Ymwelwyr:** Yn yr 21ain ganrif mae amgueddfeydd, yn briodol ddigon, o dan gryn wasgfa i sicrhau mynediad i gynulleidfa ehangach fyth ac i gyrraedd safonau uchel o ran gofal cwsmer. Ym 1996 yn unig y dechreuodd ymchwil reolaidd gan AOCC i'r maes hwn, ac mae llawer o waith sylfaenol ardderchog wedi ei wneud drwy gyfeirio arian o'n gweithgareddau craidd at ymchwil i'r farchnad. Os yw mynediad cymdeithasol gynhwysol i gael ei ddatblygu yna bydd buddsoddi mewn ymchwil marchnad cryfach yn hanfodol, oherwydd mae angen i ni gael gwybod gan y cyhoedd pam nad ydynt yn defnyddio amgueddfeydd; beth a garent ei gael gan amgueddfeydd, sut leoedd y carent i amgueddfeydd fod, ac ym mhle.
Y mae angen i ni hefyd wybod pa mor dda yr ydym yn darparu gwasanaethau, ac ym mha ffyrdd y mae angen i ni wella.

Mae gofal ymwelwyr o bwys cynyddol mewn amgueddfeydd. Ym 1997 sefydlodd AOCC ddwy swydd newydd allweddol i reolwyr Gwasanaethau Ymwelwyr; daeth y 'Wardeniaid' yn 'Gynorthwywyr Amgueddfa' a chynhyrchodd y staff eu hunain argraffiad cyntaf Llawlyfr Gofal Ymwelwyr AOCC. Mae'r newidiadau hyn yn parhau i dargedu gweithgareddau blaen y tŷ at ofal ymwelwyr yn gymaint ag at ddiogelwch casgliadau. Er nad ydym yn hunan fodlon o gwbl, mae canmoliaeth fel honno yn *The Which? Guide to Tourist Attractions (2000)* yn ein hatgoffa fod gwelliannau yn cael eu cydnabod.

Fel cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, rhaid i ni gydymffurfio â gofynion **Deddf yr Iaith Gymraeg** a thra bo AOCC yn ymfalchio ei bod yn gwario dros £200,000 y flwyddyn i ddarparu mynediad dwyieithog, mae'n rhaid dod o hyd i'r arian hwnnw drwy ail-ddosrannu adnoddau yn fewnol. Yr ydym yn ei chael hi'n anodd i wella y ddarpariaeth hon ac i ddatblygu ymhellach yr enw sydd gennym am hyrwyddo'r Gymraeg yn frwd fel iaith fyw sydd wrth galon diwylliant cyfoes Cymru.

## 5. Partneriaethau AOCC

Mae llawer o'r dyletswyddau a ddisgrifir uchod heb fod yn unigryw i AOCC yng Nghymru. Dros y blynyddoedd rydym wedi datblygu partneriaethau effeithiol iawn, a rhai sy'n fuddiol o'r ddeutu, gyda nifer o sefydliadau amrywiol sy'n ymwneud yn uniongyrchol gyda chasglu, gwaith ymchwil a diogelu casgliadau, ynghyd â hyrwyddo mynediad iddynt.

Mae partneriaethau ymchwil **gyda phrifysgolion a sefydliadau ymchwil eraill** yn nodweddu llawer o waith AOCC gyda'i chasgliadau gwyddonol. Enghraifft leol ddiweddar o hyn oedd prynu Meicrosgop Sganio Electron ar y cyd gyda Phrifysgol Caerdydd, project a ddenodd gymhorthdal sylweddol gan NERC. Rhennir y costau a'r arbenigedd ynghyd â'r deunydd ymchwil. Cedwir y meicrosgop yn y Brifysgol ond nid oes ganddi'r cyfleusterau na'r arbenigedd i ofalu am y deunydd a gesglir. Ar y llaw arall, mae diogelu casgliadau yn ddyletswydd hanfodol i'r amgueddfa.

Heddiw mae gan AOCC **bartneriaethau datblygu a hyrwyddo** hyfyw sy'n cynnwys:

- Fforwm Padarn yn Llanberis, a gadeirir gan Gyfarwyddwr AOCC, sydd wedi ennill cyllid UE sylweddol ar gyfer marchnata Llanberis.
- Partneriaeth Blaenafon, lle mae ei ymwneud â Phwll Mawr wedi chwarae rhan amlwg wrth ennill statws Safle Treftadaeth Byd i'r ardal.
- Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, gyda phartneriaid o bob rhan o Gymru.
- Cynllun Oriel Genedlaethol y Gorllewin gyda Chyngor Sir Benfro a'r Parc Cenedlaethol.
- Strategaeth ddigideiddio Cymru gyfan, y mae'r Llyfrgell Genedlaethol ac AOCC yn awr yn bartneriaid allweddol ynddi.

Yn aml rhoddir casgliadau inni o'r tu hwnt i Gymru, sy'n gydnabyddiaeth o safle amlwg AOCC mewn rhai meysydd. Eleni rhoddwyd casgliadau sylweddol o ffosilau Silwraidd gan Brifysgolion Durham a Keele, ac un o'r casgliadau pwysicaf o ddeunydd cloddfeydd aur Dolgellau nad oedd eisoes mewn amgueddfa, i AOCC gan Goleg Brenhinol Holloway: Prifysgol Llundain. Bydd y deunydd hwn yn cael ei gynnal dan yr amodau gorau posib, a bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio gan AOCC ac eraill, a hynny'n aml mewn ffyrdd na fyddai'r rhoddwr gwreiddiol wedi breuddwydio amdanynt. Mae ymchwil hollol flaengar gan staff ar DNA, er enghraifft, yn golygu mwy na chadw deunydd fel bod ei DNA yn cael ei ddiogelu i'w astudio gan y cenedlaethau sydd i ddod. Mae hefyd yn cynnwys adennill olion, fel bod gwybodaeth a oedd ynghudd ynghynt yn cael gweld golau ddydd.

Mae'r adrannau hanes hefyd yn elwa drwy bartneriaethau. Enghraifft gyfredol yw project ymchwil meddygol – gwaith Ysbyty Llandochau ar glefyd yr ysgyfaint. Mae staff AWC yn darparu eu harbenigedd i gasglu a golygu tystiolaeth lafar, yn yr achos hwn gan lowyr sy'n galw i gof eu hamodau gwaith, sydd wedi achosi problemau iechyd fel emphysema. Mae'r wybodaeth yn bwysig yn feddygol; bydd y tapiau yn dod yn rhan o gasgliadau hanes llafar cynyddol awdurdodol AWC sy'n darparu adnodd gyfoethog at ein defnydd ni, ac eraill, i'r dyfodol.

Mewn celfyddyd ac archaeoleg nodweddir gwaith AOCC gan **agwedd gydlynol tuag at gasglu.** Yn achos celfweithiau topograffyddol, er enghraifft, cydweithiwn yn agos gyda'r Llyfrgell Genedlaethol i sicrhau bod eitemau yn cael eu hachub ar gyfer y casgliadau cenedlaethol waeth lle y cânt eu cartrefi. Sicrha AOCC hefyd fod amgueddfeydd yng Nghymru yn ymwybodol o bolisïau a dulliau casglu ei gilydd, ac mae nifer o amgueddfeydd bychain yn gwerthfawrogi cymorth i dderbyn darganfyddiadau archaeolegol. Mae Swyddog Darganfyddiadau CDL Cymru, sy'n gweithio o AOCC, yn rhoi cymorth i bob amgueddfa yng Nghymru.

Bu gan AOCC **gysylltiad agos erioed gydag amgueddfeydd Cymru sydd heb fod yn rhai cenedlaethol,** gan gynnal rhaglen weithgar o roi eitemau ar fenthyg. Dangosodd archwiliad y llynedd fod gennym fwy o eitemau ar fenthyg nag unrhyw amgueddfa genedlaethol arall a allai ar y pryd roi data cymharol i ni. Ymhyfrydwn yn hyn a bwriadwn ddatblygu gwaith allanol o'r

math hwn mewn partneriaeth â Chyngor Amgueddfeydd Cymru a rhai awdurdodau lleol dewisedig. Byddwn yn ymgynghori â defnyddwyr rhanbarthol posibl ynglŷn â pha fath o wasanaethau y gallwn ni, yn eu barn hwy, eu darparu i gynnal y fenter hon. Fodd bynnag pwynt cychwynnol mynediad yw arddangos. Rhaid i'r Rhaglen Bartneriaeth ddefnyddio y technegau poblogaidd a llwyddiannus a ddatblygwyd gan AOCC i dynnu gwrthrychau o'u casys gwydr, yn llythrennol ac yn drosiadol, ac egluro eu harwyddocâd i'r cymunedau sy'n eu hastudio, a'u perthnasedd i fywyd yng Nghymru heddiw ac yn y dyfodol. Rhaid i arfer da o ran mynediad gydredeg gydag unrhyw ddatblygu ar bartneriaethau rhanbarthol; ni fydd y buddsoddiad cyfalaf i wella diogelwch a chyfleusterau eraill mewn amgueddfeydd yn rhanbarthau Cymru o werth, oni chynhelir ac y datblygir gweithgareddau estyn, o flwyddyn i flwyddyn, yn lleol a gan AOCC.

6. **Dylai AOCC barhau**

